Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2023 i 2024

## Cynnwys

Beth yw craffu? 3

Craffu ar waith 3

Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych? 4

Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 5

Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu 6

Gwaith craffu yn ystod 2023/24 7

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2023/24 8

Galw penderfyniadau’r Cabinet i mewn 11

Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu 13

Pwyllgor Craffu Cymunedau 14

Pwyllgor Craffu Partneriaethau 19

Pwyllgor Craffu Perfformiad 23

Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 28

Ceisiadau Craffu gan breswylwyr 31

Sut gall preswylwyr gymryd rhan yn y broses Graffu? 31

Ffurflen gais craffu 35

## Beth yw craffu?

Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae llawer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o naw Cynghorydd y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt er mwyn dod i benderfyniadau ynghylch polisïau a gweithdrefnau ar ei ran.

Daw'r term 'scrutiny' yn Saesneg o'r gair Lladin 'scrutinium/scrutari' sy'n golygu 'chwilio'. Yng nghyd-destun Llywodraeth Leol, rôl Craffu yw ymchwilio ac archwilio polisïau a phenderfyniadau, i asesu a ellid eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i breswylwyr ac ymwelwyr â Sir Ddinbych.  Cyfeirir at Graffu yn aml fel 'cyfaill beirniadol' y Cyngor, a'i bwrpas yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn ceisio gwella gwasanaethau'n barhaus, sicrhau gwell penderfyniadau a gwireddu gwell canlyniadau.

Ni all Pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond gallant ddylanwadu ar bolisïau, adolygu penderfyniadau a wneir gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio ystod o bynciau sy'n effeithio ar breswylwyr, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r sir.

## Craffu ar waith

Dylai craffu weithio mewn ffordd ddiduedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth plaid ddylanwadu arno, dylai ei ffocws fod ar wella bywydau preswylwyr ac ar sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ardal y sir.

Mae gan Bwyllgorau Craffu rôl weithgar i'w chwarae er mwyn datblygu polisïau ac adolygu perfformiad. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i ddal y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau maent yn eu gwneud.

Os yw Pwyllgor Craffu yn credu y dylid edrych yn fanylach ar fater cyn rhoi penderfyniad ar waith, gall ofyn i'r mater gael ei adolygu dan y weithdrefn "Galw i Mewn" a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i ffurfio cynigion amgen.

## Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae craffu'n gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, gan gymell gwelliant nid yn unig i wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ond i wasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal drwy alluogi i bryderon y cyhoedd gael eu clywed.

Cyflawnir gwaith craffu'r Cyngor gan dri Phwyllgor Craffu thematig, trawsbynciol, sy'n cwrdd oddeutu pob 7 wythnos ac maent yn cynnwys 11 Aelod Etholedig o bob plaid / grŵp gwleidyddol ar y Cyngor.

Y tri phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth astudio materion addysg, mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr a etholwyd gan riant-lywodraethwyr, yn gwasanaethu ar y pwyllgorau hefyd. Mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn wrth ddelio â materion yn ymwneud ag addysg. Ar hyn o bryd, mae'r tair swydd ar gyfer cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr ar bwyllgorau Craffu yn wag. Os ydych yn rhiant-lywodraethwr yn un o ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig y Cyngor, ac y byddai gennych ddiddordeb mewn cynrychioli'ch sector ar Bwyllgor Craffu, cysylltwch â ni (ceir manylion yn yr adran 'Sut all preswylwyr gymryd rhan yn y broses Graffu' tua diwedd yr adroddiad hwn). Fe fyddem ni wir yn hoffi clywed gennych chi.

## Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ynghyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel grŵp cydlynol ar gyfer gwaith y pwyllgorau craffu. Mae ceisiadau am eitemau i'w hystyried gan bwyllgor craffu, boed hynny gan Gynghorwyr Sir, swyddogion y Cyngor, preswylwyr, busnesau, sefydliadau / gwasanaethau cyhoeddus eraill neu'r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Craffu, neu a fyddent yn elwa o gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae'r eglurhad ar y prawf PAPER ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a'r broses ar gyfer penderfynu a yw pwnc yn un addas ar gyfer craffu.

Yn ystod 2023/24 cafodd cyfanswm o 20 o geisiadau am eitemau i gael eu craffu eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. O'r 20 cais hwn cafodd:

- 2 eu cyflwyno gan Gynghorwyr Sir
- 14 eu cyflwyno gan swyddogion (er bod 2 o'r rhain wedi deillio o Rybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan Gynghorwyr ac a drafodwyd gan y Cyngor Sir)
- 3 chais eu cyflwyno gan unigolion neu sefydliadau allanol i'r Cyngor
- 1 cais ei gyflwyno gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ran y Pwyllgor

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau'n cael eu dyblygu. Mae hefyd yn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy nodi'r arfer orau, hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu a rhoi cymorth i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i arferion craffu.

## Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu

### Cam un: ystyried y cais

Derbyn ffurflen gynnig neu gais ac ystyried yn ofalus y rhesymau dros y cais.

### Cam dau: a yw’r mater dan sylw yn cyd-fynd â’r prawf PAPER?

- Lles y cyhoedd: a yw’r mater yn destun pryder i drigolion?
- Y gallu i gael effaith: a all Craffu ddylanwadu ar bethau a’u newid?
- Perfformiad: a yw hwn yn faes neu wasanaeth sy’n tangyflawni?
- Graddau: a oedd yn effeithio ar nifer fawr o breswylwyr neu ardal ddaearyddol fawr?
- Dyblygu: a oedd unrhyw un arall yn edrych arno?

**Os ddim**, ni fydd angen i bwyllgor craffu gymryd unrhyw gamau pellach a bydd y cais yn cael ei atgyfeirio i rywle arall, neu gofynnir am wybodaeth ac fe’i rhennir gyda’r unigolyn neu’r sefydliad a gyflwynodd y cais.

**Os felly:**

**Cam tri: asesu a chynllunio** (bydd hyn yn cael ei wneud gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu)

- Penderfynu pa ganlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a graddau’r gwaith craffu sydd angen a’r dull mwyaf priodol i’w gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen ac ati)
- Os dewisir y llwybr grŵp tasg a gorffen, pennu’r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn gysylltiedig, gofynion ymchwil, cyngor arbenigol a’r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

## Gwaith craffu yn ystod 2023/24

Caiff cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu eu cynnal fel ‘cyfarfodydd hybrid’ bellach.  Mae hyn yn rhoi dewis i Aelodau Pwyllgor, swyddogion a phartneriaid neu sefydliadau allanol a wahoddwyd i fynychu cyfarfod pwyllgor craffu fynychu’n bersonol yn y lleoliad a bennwyd, neu o bell trwy fideo-gynadledda.  Mae’r hyblygrwydd hwn yn lleihau’r pwysau ar bobl o ran teithio rhwng lleoliadau, yn rhoi mwy o amser i gyflawni gwaith arall yn ystod y dydd ac yn helpu i leihau allyriadau carbon y sir trwy leihau teithiau diangen.  Gan fod pob cyfarfod Pwyllgor Craffu yn cael ei we-ddarlledu’n fyw ar wefan y Cyngor bellach, a bod recordiad o’r gwe-ddarllediad ar gael ar y wefan ar ôl pob cyfarfod, gall preswylwyr naill ai ddilyn trafodaethau pwyllgor yn fyw neu ddal i fyny gydag eitemau sydd o ddiddordeb iddynt yn nes ymlaen, pa bynnag un sy’n fwy cyfleus iddynt.

Yn ystod 2023/24, ar ôl chwarae rhan annatod wrth gefnogi’r Cyngor trwy’r pandemig a’r gwaith adfer dilynol, roedd yn rhaid i Graffu addasu i ddelio â chamau dechreuol newidiadau i ddulliau darparu gwasanaeth yn sgil y toriadau difrifol i’r gyllideb sy’n wynebu’r Awdurdod a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill am y dyfodol rhagweladwy.  Megis dechrau mae’r gwaith hwn ar hyn o bryd.  Rhagwelir y bydd Craffu yn ymwneud llawer iawn â’r gwaith sy’n cael ei wneud i drawsnewid darpariaeth gwasanaethau’r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

## Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2023/24

Cytunwyd ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor ['Y Sir Ddinbych a Garem'] a'i flaenoriaethau ar gyfer 2022 – 2027 ym mis Hydref 2022, ac mae'r Cynllun yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni er budd preswylwyr a chymunedau lleol dros y pum mlynedd nesaf. Rhestrir y Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer tymor y Cyngor 2022 i 2027 isod, fel y'u cytunwyd i ddechrau. O dan bob pennawd mae enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu a fydd yn helpu i gyflawni pob blaenoriaeth:

1. **Sir Ddinbych â thai o safon sy'n diwallu anghenion pobl:** sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion.
   - Sicrhau bod pobl yn gallu cael tai o ansawdd sy'n diwallu eu hanghenion.
   - Helpu pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.
   - Gweithio i atal digartrefedd.

**2. Sir Ddinbych ffyniannus**

- Cefnogi twf economaidd.
- Datblygu cynllun i dyfu busnesau Sir Ddinbych yn y dyfodol.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau dyfu a helpu cymunedau lleol i ffynnu.

**3. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar**

- Darparu gofal cymdeithasol o safon uchel.
- Cefnogi pobl o bob oed i fyw'n dda a bod yn ddiogel.
- Helpu pobl i fyw'n annibynnol gan ddarparu cefnogaeth yn ôl yr angen.

**4. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu**

- Cefnogi rhieni a phant ifanc yng nghamau cynnar eu datblygiad.
- Sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd teg i ddysgu.
- Darparu adeiladau a chyfleusterau o safon sy'n cefnogi dysgu a chymunedau llewyrchus.
- Cefnogi pobl i ddysgu sgiliau newydd, gwirfoddoli a dod o hyd i swyddi da.

**5. Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well**

- Cynnal rhwydwaith ffyrdd o ansawdd a galluogi pobl i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau.
- Cefnogi cymunedau gyda gwell sgiliau a rhwydweithiau digidol.
- Gweithio i gefnogi lles personol a chymunedol.
- Cefnogi ein hisadeiledd gwyrdd.

**6. Sir Ddinbych mwy gwyrdd**

- Dod yn sefydliad ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.
- Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i wella.
- Gweithio gyda chymunedau i ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd a'u lleihau.
- Gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff.

**7. Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal***

- Gweithio i fynd i'r afael ag annhegwch a thlodi mae ein cymunedau'n ei wynebu.
- Sicrhau bod pawb yn cael gwasanaeth o'r un safon i gefnogi eu lles.
- Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth yn ein cymunedau.

**8. Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu***

- Sicrhau bod pawb yn gallu cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol ar bob cam yn eu bywydau.
- Cefnogi defnyddio Cymraeg yn ehangach a dathlu diwylliant Cymru.
- Datblygu strategaeth i hyrwyddo cyfoeth Sir Ddinbych o ddiwylliant, treftadaeth ac asedau naturiol.

**9. Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad**

- Sefydlu diwylliant cadarnhaol o uchelgais, tryloywder a gwelliant parhaus.
- Datblygu perthynas agos llawn ymddiriedaeth rhwng ein staff, aelodau etholedig a'n cymunedau.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda ac yn rhoi gwerth da am arian.
- Sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn gyflogwr da ac yn lle gwych i weithio.

Mae'r Cyngor yn ffodus bod ei strwythur pwyllgorau craffu thematig yn cynnig digon o hyblygrwydd i alluogi unrhyw un o'r pwyllgorau i archwilio agweddau amrywiol ar gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn monitro cynnydd y Cyngor wrth gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol cyfan.

* Yn ystod hydref 2023, gwnaeth y Pwyllgor holi a yw'r Cynllun, yn ei fformat gwreiddiol yn rhy uchelgeisiol i'w gyflawni, er ei fod yn ymwybodol iawn o'r cyfnod parhaus o gyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a'r ffaith y byddai llai o weithwyr ar gael i helpu i gyflawni ei uchelgeisiau. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiad o amcanion y Cynllun ac ym mis Chwefror 2024, gwnaeth y Cyngor Sir gymeradwyo Cynllun Corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2022 i 2027. Mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn cynnwys chwe Thema Gorfforaethol bellach, yn hytrach na'r naw gwreiddiol, ac mae'r themâu canlynol:

- Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well
- Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal*
- Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

yn hytrach na chael eu dileu, wedi'u cynnwys yn y themâu corfforaethol eraill. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y Cyngor yn parhau i geisio darparu pob un erbyn diwedd ei dymor, fel rhan o'i waith o ddydd i ddydd, yn hytrach na fel amcanion ar eu pen eu hunain.

## Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn

Dim ond unwaith yn ystod 2023/24 y defnyddiwyd Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Roedd hyn yn ymwneud â phenderfyniad a wnaed gan Gabinet y Cyngor i leihau oriau agor Llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad y Cyngor, roedd y penderfyniad penodol hwn yn ffurfio rhan o broses y Cyngor o osod y gyllideb. Cafwyd nifer uchel iawn o ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus am y cynigion, ac roedd y mwyafrif llethol o'r rhain yn erbyn y cynnig i leihau oriau a gwasanaeth. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 11 Ionawr 2024 i ystyried y penderfyniad.

Yn ystod yr arolygiad, clywodd y Pwyllgor nad oedd awydd ymhlith mwyafrif o Aelodau Etholedig na phreswylwyr i leihau gwasanaethau ac oriau llyfrgelloedd. Er hynny, roedd y Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol digynsail ar gyfer y dyfodol rhagweladwy ac roedd angen adolygu pob gwasanaeth yr oedd yn ei weithredu er mwyn canfod arbedion ariannol a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gytuno ar gyllideb gytbwys, sef rhywbeth yr oedd rhaid iddo ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Byddai'r cynigion a gytunwyd gan y Cabinet o ran y Llyfrgell a'r Gwasanaeth Siop Un Alwad yn sicrhau y byddai pob un o lyfrgelloedd a siopau un alwad Sir Ddinbych yn aros ar agor, er mai am lai o oriau bob wythnos fyddai hyn. Roedd y Cabinet o'r farn y byddai mabwysiadu'r dull hwn yn rhoi cyfle i ymestyn a gwella gwasanaethau eto, os a phan fyddai'r hinsawdd ariannol yn gwella. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn teimlo y byddai'n well oedi cyn gweithredu'r penderfyniad nes bod gwaith archwilio gyda sefydliadau allanol, fel Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill wedi'i gwblhau, â'r nod o sicrhau adnoddau digonol i gadw'r gwasanaethau hyn ar agor yn unol â'u horiau gweithredu presennol. Felly gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet ohirio gweithredu ei benderfyniad nes bod yr holl waith archwilio wedi'i gwblhau.

Gwnaeth y Cabinet ystyried a chydnabod argymhellion y Pwyllgor Craffu ond cadarnhaodd ei benderfyniad gwreiddiol oherwydd bod gofyn gwneud yr arbedion o ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25. Fodd bynnag, cytunodd i sefydlu gweithgor o Gynghorwyr, swyddogion a budd-ddeiliaid eraill i archwilio ffyrdd o ddatblygu model ariannol cynaliadwy ar draws y sir ar gyfer gwasanaethau Llyfrgell/Siop Un Alwad. Bydd Tasglu Llyfrgelloedd yn cyflwyno

ei ganfyddiadau dechreuol i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystod ail hanner blwyddyn ariannol 2024/25.

**Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu**

Un o brif amcanion y broses graffu yw ychwanegu gwerth a cheisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Sir Ddinbych. Mae disgwyliad i Graffu ddangos tystiolaeth o'r buddion y mae wedi'u hychwanegu at y broses o wneud penderfyniadau a sut mae'r buddion hynny'n amlygu eu hunain mewn canlyniadau gwell i fusnesau a phreswylwyr y sir. Yn gyffredinol, mae'n anodd gan amlaf dangos tystiolaeth o fuddion o'r fath, ond amcan cyffredinol Craffu yw cefnogi gwell penderfyniadau sydd wedyn yn darparu gwell gwasanaethau. Felly, gorau po gyntaf y bydd Craffu yn ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau, a chyfeirir at hyn fel arfer fel 'craffu cyn gwneud penderfyniad'.

Wrth graffu cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw gynigion, mae'n rhoi mwy o amser i aelodau Craffu ffurfio a dylanwadu ar benderfyniadau a ddylai arwain at wneud penderfyniadau gwell ar sail tystiolaeth, a fydd yn darparu gwell canlyniadau i bawb yn eu tro. Yn ystod cyfnodau o gyni cyllidol, mae'n arbennig o bwysig cynnwys Craffu cyn gynted ag sy'n bosibl wrth ffurfio sut fydd y Cyngor yn cyflawni ei rôl wrth ddarparu gwasanaethau oherwydd gall weithredu fel eiriolwr a llais preswylwyr wrth ffurfio modelau darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

## Pwyllgor Craffu Cymunedau



Y Cynghorydd Huw Williams **(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Karen Edwards **(Is-Gadeirydd)**

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor

Mae'r Pwyllgor hwn yn archwilio materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol a bywydau dyddiol y trigolion. Gall y rhain fod yn faterion o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor neu agweddau ar fywyd dyddiol y gall y Cyngor ddylanwadu arnynt.

Roedd llawer o'r adroddiadau a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn ddinesig 2023/24 yn ymwneud â gwasanaethau a oedd yn cael eu hadolygu dan fesurau cyllidebol yr Awdurdod.  Bu'r Pwyllgor yn craffu ar gynigion, darparu adborth ac mewn rhai achosion, gwneud argymhellion ar gyfer ymchwiliad pellach cyn i'r Cabinet wneud penderfyniadau.

Fel a soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, cafodd penderfyniad y Cabinet a oedd yn ymwneud â lleihau oriau agor Siop Un Alwad/llyfrgelloedd y sir ei alw i mewn i'w adolygu gan y Pwyllgor, a phenderfynodd Aelodau gyfeirio'r penderfyniad am **'Gynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad'** yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach; a hefyd argymell i'r Cabinet ohirio gweithredu'r penderfyniad nes bod rhagor o

waith archwilio wedi'i wneud i nodi ffynonellau ariannu amgen sydd ar gael i'r Cyngor neu gyrff partner eraill, yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

Gan barhau â'r adolygiad o wasanaethau i ganfod arbedion posibl, cafodd cynnig drafft ar gyfer y posibilrwydd o drosglwyddo neu gau **Toiledau Cyhoeddus y Sir** ei gyflwyno i'w ystyried. Mynegodd y Pwyllgor bryderon am yr effaith bosibl ar breswylwyr, busnesau a thwristiaid a gofynnodd bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i fynd i'r afael â'u pryderon i gyd cyn i unrhyw gynnig i gau neu drosglwyddo toiledau gael ei ystyried gan y Cabinet.

Un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yw Sir Ddinbych fwy ffyniannus ac mae datblygiad economaidd ac adfywio yn allweddol er mwyn gwireddu'r flaenoriaeth hon.  Fel rhan o'i waith o gefnogi gwireddu'r flaenoriaeth hon, bu'r Pwyllgor yn parhau i fonitro gwaith **Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl** i reoli a darparu'r amrywiaeth o brosiectau sydd â'r nod o adfywio canol y dref a'r atyniadau i dwristiaid er budd preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.  Gan fod hon yn weledigaeth hirdymor sy'n dibynnu ar ddarparu nifer o brosiectau ar raddfa fawr a chanolig, ac mae nifer ohonynt yn dibynnu ar amrywiaeth o ffrydiau ariannu allanol, bydd y Pwyllgor yn parhau i archwilio'r cynnydd a wneir yn ystod y flwyddyn i ddod.

Fel rhan o broses y Cyngor o osod y gyllideb, cafodd **Ffioedd Parcio** ac oriau gweithredol eu hadolygu am y tro cyntaf ers 2016. Cydnabuwyd na fyddai'r cynigion yn boblogaidd ond roeddent yn angenrheidiol oherwydd y pwysau ar gyllideb y Cyngor ac er mwyn sicrhau buddsoddiad ym meysydd parcio'r sir yn y dyfodol.  Wrth iddynt ystyried y cynigion, cododd y Pwyllgor bryderon am ddileu'r ffi 30 munud ac effaith codi tâl am barcio ar ôl 5pm ar grwpiau/digwyddiadau cymunedol. O ganlyniad, argymhellwyd bod swyddogion yn edrych ar y cynigion canlynol ymhellach cyn gweithredu'r newidiadau arfaethedig:

- cyflwyno ffioedd gostyngol/rhatach ar gyfer parcio gyda'r nos (h.y. rhwng 5pm ac 11pm er mwyn annog pobl i fynychu grwpiau/digwyddiadau cymunedol);

- y posibilrwydd o gadw’r cynllun parcio 30 munud am ddim neu gyflwyno ffi is ar gyfer hyd at 30 munud; a’r

- posibilrwydd o gynnig llefydd parcio am ddim drwy’r dydd ar ddydd Sadwrn yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig yn hytrach na’r trefniant presennol o gynnig llefydd parcio am ddim ar ôl 3pm bob dydd.

Eglurodd y Pwyllgor y **Cynllun drafft Buddsoddi mewn Meysydd Parcio** yn fanwl gan gynnwys y gwelliannau a fyddai’n cael eu gwneud fel rhan o’r cynllun. Y gwelliant mwyaf sylweddol a ddarparwyd yn ystod cyfnod y cynllun buddsoddi presennol oedd sicrhau bod y rhan fwyaf o beiriannau talu ac arddangos yr Awdurdod wedi’u rhwydweithio i dderbyn taliadau cerdyn a dulliau digyswllt yn ogystal â thaliadau arian parod. Yn ogystal, mae mannau gwefru Cerbydau Trydan wedi’u gosod mewn deuddeg maes parcio ar draws y sir, sy’n golygu bod digon o fannau gwefru i allu gwefru mwy na 70 o gerbydau trydan ar unrhyw adeg. Y canolbwynt gwefru cerbydau trydan ym Maes Parcio West Kinmel Street yn y Rhyl oedd y canolbwynt gwefru cerbydau trydan mwyaf ond un yn y DU. Roedd y Cynllun Buddsoddi newydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn canolbwyntio ar isadeiledd ffisegol meysydd parcio sy’n eiddo i’r Cyngor Sir. Fodd bynnag, byddai angen rheoli disgwyliadau’n effeithiol o ystyried cyfyngiadau’r gyllideb y mae’r Cyngor yn eu hwynebu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Parhaodd Sir Ddinbych gyda’i ymrwymiad i leihau ei effaith ar newid hinsawdd trwy ddiweddaru ei fodel gwasanaeth ar gyfer **casglu a thrin Gwastraff y Cartref**, boed yn wastraff gweddilliol neu’n wastraff mae modd ei ailgylchu. Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd y **Depo Trosglwyddo Gwastraff newydd** yn Ninbych – gan gynnwys ymweliad safle – wrth aros am y drwydded angenrheidiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ddechrau gweithredu. Bu’r Pwyllgor yn archwilio cynigion y Gwasanaeth hefyd i ddiweddaru eu polisi casglu Gwastraff, a oedd yn cynnwys y model Trolibocs newydd, lle bydd disgwyl i breswylwyr wahanu eu deunydd ailgylchu cyn iddo gael ei gasglu, a chyflwyno cynllun peilot ar gyfer casglu Cynnyrch Hylendid Amsugnol cyn

iddo gael ei gyflwyno ar draws y sir pan gaiff y newid i'r Model ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff ei weithredu dros haf 2024. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i geisio sicrwydd y byddai manylion am y newidiadau yn cael eu rhannu'n effeithiol â phreswylwyr Sir Ddinbych ac â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned lleol.

Wrth gofio blaenoriaeth graidd yr Awdurdod, sef sicrhau tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl – cyflwynodd y Gwasanaethau Tai sawl eitem i'r Pwyllgor eu hystyried. Ymhlith y rhan oedd adroddiad ar **Gynnydd Rhent Tai a Chyllidebau 2024/25** a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried y cynnydd arfaethedig mewn rhenti yn erbyn eu heffaith ar fforddiadwyedd aelwydydd a chyllidebau buddsoddi tai dilynol, ynghyd â'r pwysau y mae'r Cyngor yn ei wynebu i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) newydd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai rhenti wythnosol yn aros o fewn amrediad fforddiadwyedd yr aelwydydd â'r lefelau isaf o incwm a enillir, pe bai'r cynnydd mwyaf a ganiateir yn cael ei gymeradwyo.

I geisio sicrhau bod Gwasanaeth Tai y Cyngor a'i stoc tai yn diwallu anghenion a disgwyliadau tenantiaid, bu'r Pwyllgor yn archwilio prosesau **Rheoli Tenantiaeth Tai Cymunedol** y Cyngor, ei **Broses Cynnal a Chadw Tai Gwag**, a chanlyniadau a chanfyddiadau **Arolwg Adborth a Boddhad Tenantiaid Tai Cyngor.** Trwy archwilio'r holl agweddau hyn sy'n ymwneud â darparu a rheoli stoc tai'r Cyngor, roedd y Pwyllgor hefyd yn gallu cael trosolwg llawn o'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn rheoli ei stoc a rhyngweithio â thenantiaid er mwyn sicrhau bod y tai a ddarperir yn fforddiadwy, yn rhoi gwerth am arian, yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn diwallu anghenion tenantiaid i safon foddhaol.

Cafodd adroddiad am **Asesiad diwygiedig o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr** ei adolygu i benderfynu a oedd y broses a ddilynwyd i adolygu'r asesiad yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth yr asesiad diwygiedig i'r casgliad y byddai angen 18 llain breswyl yn Sir Ddinbych erbyn 2033, ond nad oedd tystiolaeth bod angen safle tramwy yn y sir.  Ar ddiwedd ei adolygiad o'r broses a

ddilynwyd ar gyfer adolygu’r asesiad, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Cyngor wedi cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru:.

Mae’r Cyngor yn gofyn yn rheolaidd am adroddiadau diweddaru ar eitemau mae wedi craffu arnynt yn y gorffennol sy’n effeithio ar gymunedau Sir Ddinbych. Ar ddechrau 2023, ystyriodd y Pwyllgor benderfyniad gan y Cabinet a oedd yn ymwneud ag **Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffioedd Rhanbarthol** a oedd wedi’i alw i mewn i graffu arno. Adroddwyd am ganlyniad y broses galw i mewn yn Adroddiad Blynyddol y llynedd. Er nad oedd y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn ailystyried ei benderfyniad, gofynnwyd am ddiweddariad am lefel yr **ymgysylltiad â Fforwm Gofal Cymru a darparwyr gofal** wrth drafod ffioedd/prisiau wrth symud ymlaen. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Fforwm Gofal Cymru wedi cefnogi Grŵp Ffioedd Gofal Rhanbarthol Gogledd Cymru i ymgysylltu â darparwyr trwy weithdai ac arolygon. Yn ogystal, roedd broceriaid gofal o’r Tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd yn cysylltu â darparwyr yn rheolaidd. Wrth edrych tua 2024/25, cynigiwyd cyflwyno dull mwy rhagweithiol eto o ymgysylltu â darparwyr gyda’r broses o osod ffioedd. Fel rhan o’r broses hon, aeth rheolwyr y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd ati i gynllunio rhaglen o ymweliadau mewn partneriaeth â staff comisiynu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i gynnal sgwrs agored am gost gofal a sicrhau bod darparwyr yn ymgysylltu’n weithredol â’r broses o osod ffioedd.

## Pwyllgor Craffu Partneriaethau



Y Cynghorydd  Joan Butterfield **(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Pauline Edwards **(Is-Gadeirydd)**

Mae’r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, naill ai ar y cyd â sefydliadau eraill o’r sector cyhoeddus, neu mewn partneriaeth â nhw, ac am sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn diwallu anghenion preswylwyr.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ei agendâu a’i adroddiadau ar wefan y Cyngor

Bydd effaith pwysau’r gyllideb ar holl ddarparwyr y sector cyhoeddus yn ddiamau yn arwain at ddisgwyliadau uwch am fwy o drefniadau gweithio mewn partneriaeth rhanbarthol ac is-ranbarthol wrth symud ymlaen.  Wrth i drefniadau gweithio mewn partneriaeth barhau i ddatblygu, parhaodd y Pwyllgor â’i waith yn archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir ar y cyd, neu mewn partneriaeth, â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, cwmnïau preifat a grwpiau gwirfoddol, gan wneud yn siŵr eu bod yn diwallu anghenion preswylwyr.

Mae nifer a mathau'r gwasanaethau a ddarperir ar y cyd â darparwyr allanol yn amrywiol iawn, o ofal cymdeithasol i ddatblygiad economaidd, tai i ddiogelwch cymunedol. Mae pob un o’r trefniadau partneriaeth hyn yn ceisio gwella bywydau preswylwyr wrth gyfrannu at ddarparu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Er mwyn ceisio cefnogi'r Cyngor i wireddu'r flaenoriaeth gorfforaethol o sicrhau Sir Ddinbych ffyniannus, bu'r Pwyllgor yn trafod ei waith a'i gyflawniadau yn ystod 2022/23, a'i flaenoriaethau wrth symud ymlaen, gyda chynrychiolwyr **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**. Yn ôl yn 2018, fel rhan o'r gwaith i adfywio canol tref y Rhyl, sefydlwyd Rhanbarth Gwella Busnes y Rhyl. Rhoddodd y fenter hon bŵer i fusnesau lleol gasglu arian ar y cyd i sicrhau gwelliannau yn yr ardal leol. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu sefydlu rhanbarthau gwella busnes yn nodi mai dim ond am gyfnod o hyd at 5 mlynedd mae modd iddynt weithredu, cyn bod angen cynnal ail bleidlais er mwyn galluogi rhanbarth i barhau i weithredu. Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor 2023/24, cynhaliodd y Pwyllgor ymarfer cyn gwneud penderfyniad ar y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer cynnal **ail bleidlais am Ranbarth Gwella Busnes y Rhyl**. Cyflwynwyd barn ac argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet a thrafodwyd a ddylid bwrw ymlaen â phleidlais ar gyfer ail gyfnod o bum mlynedd ar gyfer y Rhanbarth Gwella Busnes.

Ar ôl marwolaeth drasig bachgen 7 oed yn Lloegr, y llynedd, bu'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn archwilio gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer delio ag adroddiadau am lwydni ac anwedd yn stoc dai'r Cyngor ei hun. Barn y Pwyllgor Craffu Partneriaethau oedd y byddai'n ddoeth gofyn am sicrwydd gan landlordiaid tai eraill yn y sir eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau wrth ddelio â phroblemau o'r fath. Cynhaliwyd trafodaeth â nifer o ddarparwyr tai rhent i geisio sicrwydd bod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer delio â **Llwydni ac Anwedd yn Stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Eiddo'r Sector Rhentu Preifat** yn ddigon cadarn a'u bod yn cynnig diogelwch digonol i deuluoedd yn y sir sy'n byw mewn eiddo sy'n berchen iddyn nhw. Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae'r galw am dai rhent preifat wedi cynyddu'n sylweddol. Fe arweiniodd y cynnydd hwn o ran galw, ynghyd â diffyg o ran cyflenwad at gostau hynod o uchel i rentu eiddo mewn rhai ardaloedd. O ganlyniad, roedd rhai teuluoedd yn ei chael yn anodd canfod cartrefi addas yn eu cymunedau lleol. Gyda'r bwriad o sicrhau bod teuluoedd yn Sir Ddinbych yn cael cefnogaeth i ganfod cartrefi fforddiadwy sy'n diwallu eu hanghenion, bu'r Pwyllgor yn archwilio'r polisïau a'r methodolegau a ddefnyddir gan y Cyngor a darparwyr tai eraill yn yr ardal ar gyfer **Gosod Lefelau Rhent Fforddiadwy**.

Parhaodd y Pwyllgor i fonitro amrywiaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt i sicrhau bod pob asiantaeth yn cydweithio'n effeithiol i ddiogelu'r preswylwyr mwyaf diamddiffyn yn y sir. Wrth gyflawni'r rôl hon, bu'r Pwyllgor yn archwilio **Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych 2022/23** i sicrhau bod unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol tuag at oedolion diamddiffyn yn y sir yn cael eu trin yn brydlon, yn effeithiol ac yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Yn rhinwedd ei swydd fel pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer craffu ar faterion yn ymwneud â throsedd ac anhrefn, bu'r Pwyllgor yn archwilio perfformiad **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych** trwy ystyried eu Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 a hefyd eu gweithgareddau a'u blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Yn ogystal, wrth gyflawni ei rôl o ran trosedd ac anhrefn, gwahoddodd gynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru am drafodaeth ar sut oedd yr **Heddlu yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymunedau Sir Ddinbych** a'r buddion a gafwyd o'r gwaith hwn. Rhoddodd y drafodaeth gipolwg ar sut mae'r Heddlu, yr Awdurdod Lleol a sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol eraill a busnesau preifat yn cydweithio ar draws y sir i geisio lleihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol trwy ddarparu mentrau ymyrraeth a chefnogaeth addysgol. Roedd hefyd yn galluogi'r Pwyllgor i werthuso effeithiolrwydd yr ymyraethau a oedd ar waith.

Neilltuwyd amser yn ystod y flwyddyn hefyd i archwilio'r gwaith a wnaed yn rhanbarthol gan y Gwasanaeth Iechyd, Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a'r sector gwirfoddol, trwy fod yn aelodau o **Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)** i wella darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal ar draws y gogledd ac i wella lles cyffredinol poblogaeth yr ardal. Wrth wynebu poblogaeth sy'n heneiddio a chostau sy'n cynyddu am ddarpariaeth gwasanaeth ar draws y sector cyhoeddus, mae'r Bwrdd hwn yn chwarae rôl bwysig wrth lunio ffyrdd o reoli galw yn y dyfodol am wasanaethau wrth ddiwallu anghenion yr unigolyn, gydag adnoddau ariannol sy'n lleihau'n gyson.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor wedi parhau â'i raglen o gyfarfodydd rheolaidd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i geisio sicrhau adeiladu cyfleuster newydd yn lle Hen Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl. Y nod yw y bydd **Prosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych** yn fwy o lawer nag adeilad ysbyty newydd. Yr uchelgais yw creu cyfleuster pwrpasol a fydd yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer y 21 ganrif ar gyfer ardal gogledd Sir Ddinbych. Mae'r oedi parhaus wrth gytuno ar gynlluniau a sicrhau arian ar gyfer y cyfleuster hwn y mae mawr ei angen yn achosi pryder mawr i Aelodau Etholedig a phreswylwyr. O ganlyniad, yn dilyn eu cyfarfod diweddaraf gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd, ysgrifennodd y Pwyllgor ar y Prif Weinidog a oedd newydd ei benodi, i ofyn iddo glustnodi datblygiad yr ysbyty newydd hwn fel un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gogledd Cymru. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd y prosiect a'i ddarpariaeth wrth symud ymlaen.

## Pwyllgor Craffu Perfformiad



Y Cynghorydd  Hugh Irving **(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Gareth Sandilands **(Is–gadeirydd)**

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor

Mae gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon i breswylwyr a'i gefnogi i weithredu ei Gynllun Corfforaethol.  Wrth gyflawni ei rôl rheoli perfformiad, mae'r Pwyllgor yn adolygu **Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor** bob blwyddyn a bydd yn adolygu perfformiad yr Awdurdod ddwywaith y flwyddyn o ran gweithredu ei **Gynllun Corfforaethol**. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldebau dros sicrhau bod yr Awdurdod wedi nodi unrhyw risgiau o ran cyflawni ei amcanion hefyd neu amhariadau posibl i ddarparu gwasanaethau, a sicrhau ei fod wedi datblygu camau digonol i liniaru'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd. Wrth gyflawni'r rôl hon, mae'r Pwyllgor yn adolygu'r **Gofrestr Risg Gorfforaethol** ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod y Cyngor wedi nodi'r risgiau mwyaf difrifol i'w allu i ddarparu gwasanaethau a'i fod wedi rhoi mesurau digonol ar waith i leihau'r risgiau o amhariad i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol hyn i breswylwyr.

Mae'r galw cynyddol a'r pwysau y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac oedolion yn eu hwynebu ar draws y DU yn hysbys iawn.  Fel rhan o'i waith i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau statudol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, bu'r Pwyllgor yn archwilio **Adroddiad Blynyddol**

**Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23.** Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni ei ddyletswyddau statudol a hefyd yn amlinellu’r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Yn ogystal â monitro gweithrediad y Cynllun Corfforaethol trosfwaol, mae’r Pwyllgor hefyd yn archwilio cynnydd a wnaed o ran darparu strategaethau eraill, cynlluniau a gwaith sy’n ategu’r Cynllun Corfforaethol, fel **Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd** a pherfformiad y Cyngor o ran ymateb i gwynion preswylwyr a gyflwynwyd dan **Weithdrefn Gwynion ‘Eich Llais’**. Fel a soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, y Pwyllgor hwn fynegodd bryderon, yn ystod ei broses reolaidd o fonitro perfformiad y Cyngor wrth weithredu’r Cynllun Corfforaethol, o ran a allai’r Cyngor gyflawni’r holl uchelgeisiau a nodwyd yn y Cynllun fel a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol a’r sefyllfa a ragwelir sy’n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.  O ganlyniad, cytunodd y Cyngor i leihau nifer y themâu yn y Cynllun o naw i chwech, gan gynnwys tri o’r themâu gwreiddiol yn y chwech sy’n weddill (mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran ‘Craffu a Blaenoriaethau’r Cynllun Corfforaethol yn ystod 2023/24’).

Mae **Cysylltedd Rhyngrwyd** yn dal i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd o’r sir.  Nid yn unig mae hyn yn rhwystro datblygiad economaidd, mae hefyd yn dal aelwydydd unigol yn ôl rhag gallu gwneud taliadau neu gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau hanfodol, sy’n broblem benodol pan na fydd gan wasanaethau ganolbwynt ffisegol gerllaw bellach. Mae ansawdd a chyflymder mynediad i’r rhyngrwyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn rhwystr i blant a phobl ifanc sydd angen mynediad er mwyn gwneud gwaith ymchwil neu gwblhau tasgau sy’n gysylltiedig ag addysg.  Yn ystod y flwyddyn, mae’r Pwyllgor wedi cwrdd â chynrychiolydd o Openreach a swyddogion o Dîm Digidol y Cyngor ddwywaith i drafod y cynlluniau diweddaraf ar gyfer cyflwyno ffibr ac archwilio datrysiadau posibl i geisio llenwi bylchau, yn ogystal â darparu gwybodaeth i breswylwyr mewn cymunedau anodd eu cyrraedd i’w cyfeirio at gynlluniau perthnasol neu gefnogaeth a fydd yn eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau digidol.

Pan fabwysiadodd y Cyngor ei **Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol** ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2029/30 ym mis Chwefror 2021, penderfynodd ei hadolygu bob tair blynedd. Felly, roedd adolygiad cyntaf y Strategaeth i fod i gael ei gynnal yn ystod 2023/24. Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer hynny, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor am y dull arfaethedig o adolygu'r Strategaeth. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Pwyllgor yn cynnal proses graffu cyn gwneud penderfyniad o ran y Strategaeth ddiwygiedig cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w chymeradwyo.

Yn ystod pandemig COVID-19, newidiodd trefniadau ac arferion gweithio'n sylweddol. Yn y cyfnod ar ôl y pandemig, mae nifer fawr o alwedigaethau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus y gall pobl sy'n gweithio o'u cartrefi eu cyflawni. O ganlyniad, mae'r Cyngor, fel cyflogwyr eraill, wedi profi anawsterau weithiau wrth recriwtio gweithwyr, yn enwedig i rolau penodol neu swyddi arbenigol. Bu'r Pwyllgor yn archwilio cyfraddau salwch a throsiant staff yr Awdurdod gyda'i weithdrefnau **Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu** er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ffyrdd newydd o weithio. Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad o'r enw '**A yw Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol y Cyngor yn Effeithiol?**'. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys dau argymhelliad a oedd yn ymwneud â chofnodi pan adolygwyd polisïau Adnoddau Dynol a'r angen i Archwilio Mewnol gynnwys egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel elfen annatod yn eu gweithdrefnau adolygu. Bu'r Pwyllgor yn archwilio cynnydd y gwasanaethau o ran cyflawni'r camau gweithredu a oedd yn codi o adolygiad Archwilio Cymru, gan geisio sicrwydd bod digon o adnoddau ar gyfer gwasanaethau cefnogi'r Cyngor er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen yn effeithiol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu'r Pwyllgor yn ystyried **Perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell** wrth ddarparu ei wasanaethau yn unol â'r gofynion cenedlaethol a nodir yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Roedd y data a ddarparwyd am berfformiad y Gwasanaeth yn ystod 2022/23 yn debyg i flynyddoedd blaenorol, a oedd yn dangos bod y Gwasanaeth yn perfformio'n hynod o dda. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, gan gynnwys y toriadau a gytunwyd eisoes

i oriau agor y Gwasanaeth Llyfrgell fel cyfraniad at helpu'r Awdurdod i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 a mynegodd ei bryderon am allu'r Gwasanaeth i gynnal ei lefelau perfformiad uchel wrth symud ymlaen. Gyda'r bwriad o sicrhau cynaliadwyedd y Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, gofynnodd y Pwyllgor bod y Gweithgor a sefydlwyd i fesur effaith lleihau'r oriau agor ac i archwilio datrysiadau amgen posibl ar gyfer darparu gwasanaethau mewn llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad, yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor er mwyn bod yn destun craffu manwl yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

O dan strwythur pwyllgorau craffu thematig y Cyngor, Pwyllgor Craffu Perfformiad yw'r prif bwyllgor sy'n ymdrin â chraffu ar bynciau sy'n ymwneud ag addysg, gan eu bod yn effeithio'n gyffredinol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, boed hynny ar berfformiad unigolyn neu berfformiad ysgol neu'r awdurdod addysg lleol ar y cyd neu sefydliadau allanol sy'n cynorthwyo i ddarparu addysg. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio cryn dipyn o'i amser ar graffu ar berfformiad disgyblion, ysgolion a'r Awdurdod Addysg lleol wrth ailsefydlu, addasu a chefnogi darpariaeth addysg i ddysgwyr y sir yn dilyn pandemig Covid. Fe gydnabyddir yn eang bod cyfnodau clo Covid wedi cael effaith andwyol ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion a'u hymgysylltiad gydag addysg yn gyffredinol. Gyda'r bwriad o gefnogi dysgwyr Sir Ddinbych i ymgysylltu â'r ddarpariaeth addysg sydd ar gael, bu'r Pwyllgor yn archwilio polisïau'r Cyngor o ran **Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol** i sicrhau bod y cwricwlwm wedi'i gynllunio a'i fod yn cael ei gyflwyno gan roi ystyriaeth i les emosiynol a meddyliol pob disgybl. Etifeddiaeth arall o gyfnod y pandemig yw cyfraddau presenoldeb ysgolion, felly bu'r Pwyllgor yn ystyried y mesurau a gymerwyd gan Wasanaeth Addysg y Cyngor i **Hyrwyddo Presenoldeb yn yr Ysgol ac Ymgysylltiad ag Addysg** i geisio sicrhau bod pob cam posibl yn cael ei gymryd i gynyddu ymgysylltiad disgyblion â'r addysg sydd ar gael a gwella rhagolygon gyrfa yn y dyfodol i wella canlyniadau bywyd. Dewisodd teuluoedd rhai disgyblion i'w plant gael eu haddysgu gartref ac roedd nifer y disgyblion oedd yn cael **Addysg Ddewisol yn y Cartref** wedi cynyddu yn y cyfnod ar ôl y pandemig hefyd. Er nad yw'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ddarparu addysg i ddisgyblion sy'n cael eu haddysg gartref, mae ganddo gyfrifoldebau diogelu drostynt. Felly, roedd y Pwyllgor yn awyddus i archwilio'r polisïau, gweithdrefnau a'r dull a gymerwyd gan y Gwasanaeth

Addysg i gefnogi a monitro darpariaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref ac i sicrhau bod disgyblion a gaiff eu haddysg gartref yn cael eu cadw'n ddiogel.

Gyda'r **Cwricwlwm i Gymru** yn statudol ym mhob ysgol gynradd yn y wlad bellach a'i fod wedi cael ei gyflwyno i Flwyddyn 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd o fis Medi 2023, parhaodd y Pwyllgor â'i waith o fonitro'r gwaith o'i gyflwyno a'i roi ar waith.  Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwerthuso sut mae'r cwricwlwm wedi'i gynnwys mewn ysgolion ac ar draws pob cyfnod allweddol, manteision ac/neu anfanteision y cwricwlwm newydd yn ogystal â'i effaith ar recriwtio a chadw staff.  Bu hefyd yn parhau â'i waith ar fonitro cydymffurfiaeth y Cyngor â'i ddyletswyddau statudol dan **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**.  Gan fod rhaid gweithredu gofynion y Ddeddf yn llawn erbyn 2025, bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion y Ddeddf ac effeithlonrwydd y cyllid a ddarparwyd i fodloni gofynion y Ddeddf.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn parhau i fonitro'r cynnydd a wnaed gan **Ysgol Gatholig Crist y Gair** wrth ddarparu'r cynllun gweithredu a gwella safonau yn dilyn adroddiad Arolygu Estyn Mai 2022.  Bydd gwaith monitro pellach ar weithrediad y cynllun gweithredu yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.  Bu gwaith yn parhau ar fonitro'r cynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu **Darparu Cwricwlwm a Darpariaeth Allgyrsiol Cyfrwng Cymraeg** ar draws y sir yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.  Gan fod hon yn uchelgais hirdymor, ac oherwydd y rhwystrau na ragwelwyd a wynebwyd o ganlyniad i'r pandemig, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei amcanion o ran y ddarpariaeth hon.

Gan roi ystyriaeth i'r amhariad a achoswyd i ddysgwyr Sir Ddinbych yn y blynyddoedd diweddar gan y pandemig, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu parhau i archwilio a monitro nifer o'r meysydd uchod wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod disgyblion y sir yn cael pob cyfle i gyflawni eu llawn botensial, a sicrhau y bydd perfformiad ar bob lefel yn rhagori ar lefelau cyn y pandemig yn y pen draw a gwireddu'r uchelgais bod Sir Ddinbych yn sir sy'n dysgu a thyfu go iawn.

## Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Sefydlwyd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych gan y ddau awdurdod yn ystod tymor y Cynghorau blaenorol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol o graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 16 aelod, 8 yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac 8 yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych. Mae cynrychiolaeth pob Cyngor ar y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol eu Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi y bydd y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn newid bob dwy flynedd rhwng aelodau etholedig Cynghorau Sir Ddinbych a Sir Conwy bob yn ail. Yn dibynnu ar dro pa Gyngor yw hi i Gadeirio’r Cyd-bwyllgor, caiff yr Is-Gadeirydd ei benodi o blith cynrychiolwyr y Cyngor arall ar y Pwyllgor. Yn 2023/24, roedd hi’n bryd penodi Cadeirydd o blith cynrychiolwyr Conwy ar y Cyd-bwyllgor ac felly cafodd y Cynghorydd Cheryl Carlisle ei phenodi fel Cadeirydd, a chafodd y Cynghorydd Gareth Sandilands o Sir Ddinbych ei benodi fel Is-Gadeirydd. Mae’r Pwyllgor hwn yn cwrdd ddwywaith yn ystod blwyddyn y Cyngor.

Fel a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, byddai canolbwynt y Cyd-bwyllgor yn ystod 2023/24 yn archwilio sut oedd y BGC yn rheoli risgiau, yn ogystal â chynnydd y Bwrdd hyd yma gyda gweithrediad dechreuol ei Gynllun Lles Lleol. Yn unol â hynny, bu’r Cyd-bwyllgor yn archwilio **Cofrestr Risg y Bwrdd**, sy’n nodi’r risgiau mawr a nodwyd fel rhwystrau posibl i allu’r BGC i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a gweithredu ei Gynllun Lles. Ar ôl archwilio’r Gofrestr a’r rhesymeg dros y mesurau lliniaru a roddwyd ar waith, roedd y Cyd-bwyllgor yn fodlon bod camau perthnasol a digonol wedi’u cymryd i geisio lleihau effaith bosibl y risgiau hynny ar allu’r BGC i gyflawni ei rwymedigaethau. Ar ôl ystyried y cynnydd dechreuol a wnaed gan y BGC wrth weithredu ei **Gynllun Lles Lleol 2023/2028**, roedd y Cyd-bwyllgor yn fodlon bod pob partner y BGC wedi cymryd camau digonol ar y cam cynnar hwn i gynnwys a chefnogi eu huchelgeisiau ar y cyd i wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ar gyfer yr ardal, fel a nodir yn y Cynllun Lles Lleol. Bydd y Cyd-bwyllgor yn parhau â’i waith i fonitro gweithredu’r Cynllun

hwn yn y blynyddoedd sydd i ddod. Yn ogystal, â’r bwriad o gynnal ymrwymiad pob partner i’r BGC a’i amcanion yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau ariannol, mae’r Cyd-bwyllgor wedi cytuno i barhau i wahodd pob partner BGC yn ei dro i gyfarfodydd y dyfodol i drafod cyfraniad eu sefydliad at waith y BGC, yn ogystal â’r buddion i’w sefydliad o fod yn aelod o’r BGC. Yn ystod 2023/24, mynychodd gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer y diben hwn.

Mae holl themâu ac amcanion Cynllun Lles Lleol y BGC yn plethu ac ategu cynlluniau strategol pob Cyngor a sefydliad partner.

Mae’n bwysig pwysleisio bod pwerau’r Cyd-bwyllgor i graffu ar sefydliadau partner y BGC ddim ond yn ymestyn cyn belled â’u cyfraniad at waith y BGC. Nid oes gan y Cyd-bwyllgor bwerau i graffu ar bolisïau sefydliadau unigol na’u perfformiad o ran darparu gwasanaethau y tu allan i’w rôl a chyfrifoldebau ar y BGC.

**Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**



Y Cynghorydd Cheryl Carlisle **(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Gareth Sandilands **(Is–Gadeirydd)**

**Aelodaeth**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

- Y Cynghorydd Cheryl Carlisle (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd David Gerard Carr
- Y Cynghorydd Bernice McLoughlin
- Y Cynghorydd Angie O'Grady
- Y Cynghorydd Stephen Anthony Price
- Y Cynghorydd Kay Redhead
- Y Cynghorydd Austin Roberts
- Y Cynghorydd John Roberts

**Cyngor Sir Ddinbych**

- Y Cynghorydd Joan Butterfield
- Y Cynghorydd Kelly Clewett
- Y Cynghorydd Pauline Edwards
- Y Cynghorydd Alan Hughes
- Y Cynghorydd Paul Keddie
- Y Cynghorydd Terry Mendies
- Y Cynghorydd Arwel Roberts
- Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Is–Gadeirydd)

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Cyd-bwyllgor, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor

# Ceisiadau Craffu gan breswylwyr

Ers nifer o flynyddoedd mae pwyllgorau craffu Sir Ddinbych wedi gweithredu dull sy'n galluogi preswylwyr i dynnu sylw Craffu at faterion sy'n peri pryder. Caiff hyn ei hwyluso drwy lenwi Ffurflen Gais Craffu, sydd ar gael ar wefan y Cyngor neu gan y Cydlynydd Craffu. Caiff ffurflenni wedi'u llenwi eu cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn yr un ffordd â cheisiadau a dderbynnir gan Gynghorwyr, swyddogion neu sefydliadau eraill, i'w hystyried ac i benderfynu a yw'r pwnc yn addas i'w archwilio gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu a fyddai'n fwy buddiol pe bai'r mater yn cael ei ystyried gan fforwm arall.

## Sut gall preswylwyr gymryd rhan yn y broses Graffu?

### A fyddech chi'n hoffi i'r pwyllgorau craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi mater i'w ystyried gan un o bwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (drosodd) neu drwy lawrlwytho'r ffurflen o wefan y Cyngor a'i chyflwyno dros e-bost. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn cyfarfod yn achlysurol i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y pwyllgorau craffu a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall. Gall hyn amrywio o gyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r pwyllgorau craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'grŵp tasg a gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

### A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod pwyllgor craffu?

Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac mae preswylwyr Sir Ddinbych a'r cyhoedd yn cael eu hannog i fynychu neu wylio'r gweddarllediad ar wefan y Cyngor. Mae rhestr o gyfarfodydd pwyllgorau craffu'r dyfodol a'r materion i'w trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech gymryd rhan yn y drafodaeth am fater penodol, bydd angen caniatâd Cadeirydd y pwyllgor (mae rhagor o fanylion dros y dudalen).

Yn achlysurol bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol.  Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') wedi'u nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn ei gwneud hi'n glir y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

## A fyddech chi'n hoffi siarad mewn pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo, ond bydd yn rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch â'r Cydlynydd Craffu ymlaen llaw er mwyn trefnu hyn a dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r pwyllgor.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd pwyllgorau craffu am 'gyfethol' unigolyn sydd â phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r pwyllgor neu ofyn iddo gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

## Cael y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau pwyllgorau craffu Sir Ddinbych

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob pwyllgor craffu, yn ogystal ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall y Cyngor, drwy ymweld â'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor.  Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r pwyllgorau craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd yr agenda sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael 5 - 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o'r argymhellion hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, yn ogystal â'r recordiadau o gyfarfodydd craffu diweddar.

Mae rhagor o gyngor neu wybodaeth ar gael drwy gysylltu â'r Cydlynwyr Craffu, Karen Evans ar karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575) neu Rhian Evans ar

rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554), neu drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad e-bost cyffredinol canlynol: democrataidd@sirddinbych.gov.uk.

## Ffurflen gais craffu

A oes unrhyw fater yr hoffech i'r pwyllgorau craffu gael golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried

A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu? BYDDWN / NA FYDDWN

Byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi'r manylion isod i ni er mwyn i ni allu ymateb i'ch cais

| |
|---|
| Eich enw: |
| Cyfeiriad: |
| Cod Post: |
| E-bost: |
| Rhif ffôn: |

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Cydlynwyr Craffu
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
neu e-bostiwch y ffurflen at democrataidd@sirddinbych.gov.uk